# Canllaw ar Ddyfeisiau Ocsigen Cludadwy Sequal Eclipse




baywater HEALTHCARE

Providing NHS services

# Cynnwys


Peiriannau Ocsigen Cludadwy **3**

Dod i Adnabod Rhannau o'ch Peiriant Eclipse **4**

Amser Gweithredu Arferol Pecyn Batri Newydd **5**

Sut mae defnyddio'r peiriant, a Dangosyddion Statws y System **6**

Cyn Defnyddio'r Peiriant **7**

Cludo eich peiriant Eclipse **9**

Defnyddio eich Peiriant Eclipse **10**

Byddwch yn Ddiogel **12**

Datrys Problemau **13**






ENHANCING LIVES



# Peiriannau Ocsigen Cludadwy

Mae pob peiriant ocsigen cludadwy yn cynnwys pecyn batri y gellir ei ailwefru, sy'n golygu bod modd ei ddefnyddio y tu allan i'r cartref am sawl awr (mae oes y batri'n dibynnu ar y gosodiad llif).

Gall y gyfradd llif ar y math hwn o beiriant amrywio o'r hyn sy'n ofynnol wrth ddefnyddio peiriant ocsigen neu silindr safonol. Dim ond y gyfradd llif a archebir gan eich Gweithiwr Gofal Proffesiynol y dylech chi ei defnyddio.

Sylwch: Mae eich peiriant Eclipse yn eiddo i Baywater Healthcare, ac ar fenthyg i'r GIG.

# Dod i Adnabod Rhannau o'ch Peiriant Eclipse




**A** Allfa ocsigen
**B** Handlen
**C** Panel rheoli
**D** Twll y plwg
**E** Twll ar gyfer gwasanaethu
**F** Hidlydd mewnfa aer
**G** Pecyn batri
**H** Fent wacáu

## Rhybudd

Gwnewch yn siŵr bod y peiriant Eclipse yn cael ei gadw ar i fyny bob amser.

# Amser Gweithredu Arferol Pecyn Batri Newydd

Mae'r tabl canlynol yn dangos yr amser y bydd pecyn batri newydd yn debygol o bara pan fo'r gosodiad ar gyfraddau gwahanol.

| Gosodiad cyfradd llif | Modd llif parhaus (lpm) | Modd llif pwls (gosodiad) |
|---|---|---|
| 0.5 | 4.4 awr | Amh. |
| 1 | 3.7 awr | 5.4 awr |
| 2 | 2.0 awr | 5.1 awr |
| 3 | 1.3 awr | 4.9 awr |
| 4 | Amh. | 4.0 awr |
| 5 | Amh. | 3.7 awr |
| 6 | Amh. | 3.5 awr |

**Rhybudd**
Cadwch eich pecyn batri'n sych bob amser. Os bydd yn dod i gysylltiad â hylif, peidiwch â'i ddefnyddio a chysylltwch â ni.

Gall pecynnau batri gwlyb achosi peryglon diogelwch, gan gynnwys tân a sioc drydanol.


# Sut mae defnyddio'r peiriant, a Dangosyddion Statws y System

## Dangosydd botwm On/Off (gwyrdd)

Mae'r botwm hwn yn troi'r ddyfais ymlaen neu'n ei diffodd. Bydd y dangosydd gwyrdd yn goleuo pan fydd y ddyfais ymlaen.

## Botwm cynyddu neu leihau gosodiad llif

Defnyddiwch y botymau hyn i osod y gosodiad llif.




**A** Dangosydd botwm On/Off (gwyrdd)
**B** Dangosydd rhybudd (melyn)
**C** Dangosydd larwm (coch)
**D** Botwm cynyddu gosodiad llif
**E** Botwm lleihau gosodiad llif
**F** Dangosydd a botwm modd llif

# Cyn ei Ddefnyddio

Gwnewch yn siŵr bod y pecyn batri wedi'i osod yn gywir bob amser. Cyn defnyddio'r ddyfais, dylech chi hefyd wneud yn siŵr nad yw'r fewnfa aer a'r fent wacáu wedi blocio, a bod hidlydd y fewnfa aer yn lân cyn defnyddio'r peiriant.

## Troi eich peiriant Eclipse ymlaen

Mae modd defnyddio'r peiriant Eclipse gartref, ac mae modd ei symud gyda'r troli.

Gallwch chi ddefnyddio eich peiriant Eclipse gydag amrywiaeth o ffynonellau pŵer, gan gynnwys:

1. Cyflenwad pŵer AC (prif gyflenwad)
2. Cyflenwad pŵer DC (pwynt gwefru ategolion mewn car)
3. Pecyn batri y gellir ei ailwefru

Mae'r peiriant Eclipse yn gwefru'r batri pan fydd wedi'i gysylltu â'r prif gyflenwad (AC).

## Cyflenwad pŵer AC (prif gyflenwad)

Pan fydd y peiriant Eclipse wedi'i blygio i mewn i gyflenwad trydan, bydd y dangosydd yn goleuo'n wyrdd, a bydd y dangosydd pŵer allanol yn dangos ar y sgrin arddangos.

Os oes angen i chi ddiffodd y larwm 'loss of power', pwyswch y Botwm On/Off a'i ddal am 5 eiliad. Bydd cysylltu'r peiriant Eclipse â chyflenwad pŵer AC allanol yn diffodd y larwm hefyd.




## Cyflenwad pŵer DC (pwynt gwefru ategolion mewn car)

Mae cyflenwad pŵer DC yn galluogi'r system i weithio mewn cerbyd. Ewch i weld ai 15amp neu 20amp yw'r gyfradd ffiwsiau yn eich cerbyd modur. Ar ôl cadarnhau, gosodwch y switsh ar y cyflenwad pŵer DC i'r gyfradd ffiws briodol.

Taniwch eich cerbyd, rhowch y cebl DC yn y twll ar ochr y peiriant Eclipse. Nesaf, rhowch blwg y cyflenwad pŵer DC yn allfa pŵer eich cerbyd. Pan fydd y peiriant Eclipse wedi'i gysylltu'n iawn ac yn cael pŵer o ffynhonnell bŵer DC, bydd y dangosydd yn goleuo'n wyrdd ar y cyflenwad pŵer, a bydd y dangosydd 'external power is present' ar y panel rheoli yn goleuo.

## Amser arferol i wefru pecyn batri

Yr amser arferol i ailwefru batri gwag yn llawn yw rhwng 1.4 awr a 5 awr, yn dibynnu ar osodiad llif y ddyfais.

## Rhybudd

Peidiwch byth â defnyddio unrhyw gebl pŵer sydd wedi'i ddifrodi neu wedi'i raflo Drwy ddefnyddio cebl yn amhriodol, gall hyn arwain at berygl o dân neu sioc drydanol.

Peidiwch â chysylltu'r peiriant Eclipse â chordyn ymestyn. Tynnwch y cebl pŵer AC o'r wal bob amser cyn datgysylltu'r plwg o'r peiriant Eclipse.

Peidiwch â rhoi'r peiriant Sequal Eclipse mewn soced wal diffygiol a, lle bynnag y bo modd, tynnwch y plwg o'r peiriant pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.



# Cludo eich peiriant Eclipse

Dilynwch y cyngor canlynol wrth gludo eich peiriant Eclipse:

- Sicrhewch bod y peiriant Eclipse a'r cyflenwad trydan DC yn ddiogel yn eich cerbyd, bod digon o aer i'r peiriant Eclipse, a bod y fewnfa aer a'r fentiau gwacáu heb flocio. Os bydd y fewnfa aer neu'r fent wacáu wedi blocio, gall hyn atal y peiriant Eclipse rhag gweithio. Gwnewch yn siŵr bod y peiriant Eclipse wedi'i storio'n ddiogel y tu ôl i'r seddi blaen neu ar y sedd gefn.

- Peidiwch â gadael y peiriant Eclipse neu'r cyflenwad pŵer DC wedi'i blygio i mewn i'r cerbyd heb i'r injan fod yn rhedeg, a pheidiwch â cheisio cychwyn y cerbyd tra bo'r cyflenwad pŵer DC wedi'i gysylltu â'r cerbyd. Bydd hyn yn draenio batri'r cerbyd.

- Peidiwch â gadael eich peiriant Eclipse na'ch pecyn batri ar y seddi neu yng nghist eich cerbyd ar ddiwrnod poeth neu oer iawn.

- Rhowch eich offer o'r golwg pan fyddwch chi'n gadael y car heb oruchwyliaeth.

# Defnyddio eich Peiriant Eclipse

## Lleoliad eich peiriant Eclipse

Rhowch y peiriant Eclipse mewn ystafell sydd â llif aer da, gan wneud yn siŵr nad yw'r fewnfa aer na'r fent wacáu wedi'u rhwystro.



## Troi eich dyfais ymlaen


Pwyswch y botwm 'On/Off' a'i ddal am bum eiliad.

Bydd prawf byr clywadwy a gweledol yn cael ei gynnal. Gwnewch yn siŵr bod yr holl ddangosyddion wedi'u goleuo, a bod seinydd yn canu am dair eiliad. Mae hyn yn dangos bod y ddyfais yn gweithio'n iawn.

Gadewch i'r ddyfais gynhesu am bum munud cyn ei defnyddio.

**Rhybudd**
Pan fyddwch chi'n troi'r peiriant ocsigen ymlaen am y tro cyntaf, os bydd tri bîp yn canu, ffoniwch ni.

Os nad yw goleuadau'r peiriant yn dangos yn goch, yn felyn, ac wedyn yn troi'n wyrdd ar ôl i'r peiriant fod yn rhedeg am fwy na 5 munud, ffoniwch ni.



## Addasu gosodiad y llif i lefel y presgripsiwn

Gan ddefnyddio'r botymau +/ – ar gyfer gosod y llif, ewch ati i addasu'r gosodiad llif i'r gosodiad a gafodd ei roi ar bresgripsiwn gan eich Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol.



## Sut mae defnyddio'r troli

Pwyswch y botwm 'push' ar handlen y troli symudol i addasu uchder yr handlen.



## Diffodd y ddyfais

I ddiffodd y peiriant Eclipse, pwyswch y botwm 'On/Off' am ddwy eiliad.



# Byddwch yn Ddiogel

- Cadwch y peiriant Eclipse a’r cebl pŵer i ffwrdd oddi wrth arwynebau poeth a fflamau.
- Peidiwch â defnyddio’r peiriant os yw’r cebl pŵer neu’r plwg wedi’u difrodi.
- Dim ond yr ategolion sydd wedi’u rhoi gennym ni y dylech chi eu defnyddio gyda’r ddyfais hon.
- Cadwch y peiriant Eclipse a’r cyflenwadau pŵer i ffwrdd oddi wrth unrhyw hylif er mwyn osgoi peryglon posibl fel sioc drydanol
- Os yw eich peiriant Eclipse wedi cael ei ollwng, ei ddifrodi neu wedi dod i gysylltiad â dŵr, cysylltwch â ni.
- Peidiwch â rhoi gwrthrychau i mewn i unrhyw agoriadau yn y peiriant.
- Peidiwch â blocio’r fewnfa aer na’r fent wacáu pan fo’r peiriant Eclipse ar arwyneb meddal, e.e. carped ac ati.
- Peidiwch â rhoi blanced, tywel ac ati dros y peiriant.
- Wrth ddefnyddio peiriant Eclipse mewn unrhyw gerbyd, gwnewch yn siŵr ei fod wedi’i storio’n ddiogel.
- Peidiwch â difrodi’r pecyn batri. Gall y cynnwys fod yn wenwynig os caiff ei lyncu, a gall fod yn niweidiol i’r croen a’r llygaid. Cadwch y pecyn i ffwrdd oddi wrth blant.
- Gall rhoi’r pecyn batri mewn dŵr neu hylifau eraill achosi anaf.
- Peidiwch â gollwng y pecyn batri.

# Datrys problemau




## Beth i'w wneud os nad oes llif ocsigen

Os nad oes ocsigen yn llifo, gall hyn ddangos bod y ddyfais wedi'i diffodd. Rhowch gynnig ar wasgu'r botwm pŵer i'w droi ymlaen ac edrych ar faint o fatri sy'n weddill. Gwiriwch fod y pigynnau trwynol wedi'u cysylltu'n gywir. Os nad yw'r datrysiadau hyn yn gweithio, ffoniwch ni ar 0800 373580.



## Beth i'w wneud os nad yw'r peiriant ocsigen Eclipse yn troi ymlaen

Os nad yw'r peiriant ocsigen cludadwy yn troi ymlaen ar ôl pwyso'r botwm 'On', mae'n bosibl nad yw'r batri wedi gwefru digon i droi'r ddyfais ymlaen. Rhowch y ddyfais yn y prif gyflenwad trydan i'w gwefru. Os nad yw hyn yn gweithio, ffoniwch ni ar 0800 373580.



## Beth i'w wneud os bydd y larwm yn canu

Wrth ddefnyddio peiriant Eclipse mewn modd dos pwls, os na fydd y peiriant yn canfod anadl am 60 eiliad, bydd larwm y peiriant yn canu nes bydd yn canfod anadl normal unwaith eto.

Os nad oes modd clywed sŵn hisian wrth anadlu i mewn pan fo'r peiriant ar fodd dos pwls, mae'n bosibl y bydd angen adolygiad clinigol arnoch chi. Cysylltwch â'ch Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol.

(ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer galwadau brys)

# Nodiadau

# Nodiadau



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Baywater Healthcare**
Wulvern House
Electra Way
Crewe
Cheshire
CW1 6GW

Ffoniwch: 0800 373580

healthuk@baywater.co.uk
@BaywaterHealth
Baywater Healthcare
Baywater Healthcare

baywater HEALTHCARE

ENHANCING LIVES

This leaflet is also available in English

24/763/UK-MAY24 v1